



# Plentyn sy'n Wynebu Risg – o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

## 'Plentyn sy'n wynebu risg' yw plentyn:

- sy'n cael, neu sy'n wynebu risg o gael, ei gam-drin, ei esgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed neu
- sydd ag anghenion gofal a chymorth (p'un ai yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw un neu rai o'r anghenion hynny ai peidio).

Pan y cyflwynir gwybodaeth am blentyn o dan adran 130, bydd yr awdurdod lleol yn gwneud, neu'n peri i rywun arall wneud, pa ymholiadau bynnag sy'n angenrheidiol yn ei farn ef i'w alluogi i benderfynu a ddylai gymryd unrhyw gamau i ddiogelu neu hybu lles y plentyn o dan adran 47 o **Ddeddf Plant 1989**.

Mae'r **Ddeddf** yn diffinio camdriniaeth, esgeulustod a niwed.

Ystyr **camdriniaeth** yw camdriniaeth gorfforol, rywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol (ac mae'n cynnwys camdriniaeth sy'n digwydd mewn unrhyw leoliad, p'un ai mewn annedd breifat, mewn sefydliad neu mewn unrhyw fan arall) ac mae "camdriniaeth ariannol" yn cynnwys dwyn, twyllo, rhoi pwysau ar berson mewn perthynas ag arian, camddefnyddio arian.

Ystyr **esgeulustod** yw methiant i ddiwallu anghenion corfforol, emosiynol, cymdeithasol neu seicolegol sylfaenol person, sy'n debygol o arwain at amharu ar lesiant y person (er enghraifft, amharu ar iechyd y person).

Ystyr **niwed** yw camdriniaeth neu nam ar (a) iechyd corfforol neu iechyd meddwl, neu (b) datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol neu ymddygiadol.

Gall camdriniaeth neu esgeulustod fod yn drosedd. Maent yn cynnwys troseddau yn erbyn y person (troseddau treisgar), troseddau rhywiol a throseddau eiddo fel dwyn. Os yw camdriniaeth neu esgeulustod yn cael ei gymhell gan nodwedd bersonol rhywun – anabled, hil ac ethnigrwydd, crefydd a chred, cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran trawsrywedd / rhywedd – yna gall fod yn drosedd casineb.

Mae'r diffiniad o niwed yn y Ddeddf yn debyg iawn i'r un yn **Neddf Plant 1989**.

Mae mwy o wybodaeth ar gael ar Hyb Gwybodaeth a Dysgu Gofal Cymdeithasol Cymru yn

**[gofalcymdeithasol.cymru/hyb/hafan](http://gofalcymdeithasol.cymru/hyb/hafan)**